Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Pontarddulais**

**Eglwys Gymunedol Bont Elim**
**Ffordd Alltiago**
**Pontarddulais**
**Abertawe**
**SA4 8HU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

27/5/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Pontarddulais

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Unigolyn cofrestredig | Nigel Beynon |
| Lleoedd cofrestredig | 12 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 31 Ionawr 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau’n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Gwael** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac wedi ymgartrefu yng Nghylch Meithrin Pontarddulais. Rhoddir dewisiadau iddynt a gallant ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r plant wedi datblygu perthynas gadarnhaol â'r oedolion o'u cwmpas ac yn cydweithredu'n dda â'u cyfoedion. Dangosant bleser a chânt gyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau.

Mae'r staff gofal yn gweithio'n dda i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac mae ganddynt weithdrefnau hylendid digonol ar waith. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau i hybu preifatrwydd y plant. Mae'r staff gofal yn fodelau rôl da i'r plant, gan ryngweithio'n gadarnhaol ac maent yn cynllunio ac yn cyflawni ystod addas o weithgareddau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig amgylchedd sydd yn groesawgar ac yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod gwiriadau diogelwch rheolaidd yn cael eu cynnal ond mae angen datblygu asesiadau risg ymhellach. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnig man chwarae dan do priodol i'r plant ei archwilio a'i ddefnyddio, ac maent yn darparu adnoddau, teganau ac offer sy'n addas ar gyfer yr ystod oedran y maent yn gofalu amdanynt.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth sy'n datblygu ar gyfer y dyfodol. Mae ganddynt ystod o ddogfennau ar waith. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad nifer o staff addas, hir eu gwasanaeth. Fodd bynnag, nid ydynt yn sicrhau bod gan bob gwirfoddolwr y gwiriadau addasrwydd cywir ar waith ac nid ydynt yn cynnal sesiynau goruchwylio rheolaidd. Maent yn arfarnu eu lleoliad yn flynyddol ac mae ganddynt berthynas gadarnhaol â'r rhieni.

**Llesiant** **Digonol**

Mae bron pob plentyn yn aml yn gyfathrebwyr hyderus, ac ystyrir ei ddymuniadau, ei hwyliau a'i anghenion yn gyffredinol. Gofynnir am farn y plant a rhoddir opsiynau iddynt. Er enghraifft, gofynnir i'r plant a ydynt am gymryd rhan mewn amser cylch. Cefnogir y plant yn eu dewisiadau a gallant ddilyn eu diddordebau eu hunain. Er enghraifft, os yw plentyn yn gwrthod cymryd rhan mewn gweithgaredd, mae staff gofal yn parchu'r dewis hwn.

Mae bron pob un o'r plant yn fodlon ac yn mynegi mwynhad. Maent wedi ymgartrefu, wedi ymlacio, ac yn gwenu wrth iddynt gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn ac maent yn dod yn gyfarwydd â threfniadau arferol. Er enghraifft, wrth gyrraedd y lleoliad, aeth y plant yn syth at y carped ar gyfer amser cylch. Mae'r plant yn cyfarch ei gilydd yn gynnes pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad am y tro cyntaf ac ymunant yn hapus mewn gweithgareddau a arweinir gan oedolion.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gyson dda. Maent yn mynd at y staff gofal yn hyderus, gan ofyn cwestiynau, gwneud ceisiadau, neu chwilio am sicrwydd. Mae bron pob un o'r plant yn cydweithredu'n dda, o ystyried eu hoedran a'u cyfnod datblygu, ac mae ganddynt ddiddordeb ac maent wedi'u hymgysylltu'n weithredol. Mae llawer o'r plant yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd, tra bod eraill yn cydweithredu ac yn chwarae gyda'i gilydd. Er enghraifft, bu dau blentyn yn cydweithio i adeiladu wal. Clywsom rai plant yn chwerthin wrth chwarae ar y beiciau a buont yn rhannu adnoddau. Mae rhai o'r plant yn dechrau dangos empathi ac yn dod yn sensitif i anghenion eraill. Er enghraifft, gwelodd un plentyn blentyn arall yn gorwedd yn dawel ar y carped a gofynnodd,*"wyt ti'n iawn?"* cyn mynd ati i rannu teganau â'r plentyn.

Mae bron pob plentyn yn ymgysylltu â'i chwarae a'i ddysgu. Maent yn ymwneud â'r gwahanol weithgareddau ac adnoddau yn y brif ystafell chwarae ac yn dangos mwynhad a chyffro wrth chwarae yn yr ystafell fawr i lawr y grisiau. Mae gan y plant lawer o gyfleoedd i ddilyn eu syniadau a'u diddordebau eu hunain. Cânt eu cefnogi yn eu dewisiadau a'u hannog i chwarae mewn amrywiaeth o ardaloedd neu gymryd rhan mewn gweithgaredd a arweinir gan oedolion. Mae bron pob plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n achosi teimlad rhesymol o gyflawniad a hunan-barch. Maent yn fodlon dangos neu siarad am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud. Er enghraifft, roedd plentyn yn pwyntio'n falch at ei lun ac yn siarad am ei waith lliwio gyda phlentyn arall.

Mae bron pob plentyn yn cael profiad o amrywiaeth o gyfleoedd sy'n briodol i'w oedran ac sy'n hyrwyddo ei ddatblygiad cyflawn ac yn ei alluogi i ddilyn ei ddiddordebau ei hun. Maent yn cyrchu amrywiaeth o adnoddau a theganau gan gynnwys rhai chwarae rôl, a gweithgareddau creadigol a chorfforol. Mae gan y plant rai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, sydd yn eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn ymolchi eu dwylo ac yn defnyddio tywelion papur yn annibynnol.

## Gofal a Datblygiad **Digonol**

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall risgiau ac yn eu rheoli'n weithredol. Er enghraifft, wrth symud y plant i fyny'r grisiau i'r brif ystafell chwarae, roedd y staff gofal yn lleoli eu hunain yn briodol ac yn annog y plant yn gyson i afael yn y canllaw. Mae’r staff gofal yn dilyn arferion hylendid digonol, yn sychu byrddau neu'n gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol ac yn tacluso adnoddau'n gyson i atal peryglon rhag digwydd. Fodd bynnag, nid oeddent bob amser yn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y plant yn cael eu diogelu gan fod drws y toiled yn cael ei adael ar agor tra bod y plant yn defnyddio'r cyfleuster. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella a disgwyliwn i'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad gymryd camau i fynd i'r afael â hyn a byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf. Maent yn annog ac yn hyrwyddo bwyta'n iach amser cinio a byrbryd, gan ddangos diddordeb yn yr hyn y mae'r plant yn ei fwyta a chanmol dewisiadau iach. Er enghraifft, ymatebodd staff gyda *"waw"* pan dangosodd plentyn ei afal mawr iddynt. Mae’r staff gofal yn gwybod beth i'w wneud os oedd ganddynt unrhyw bryderon am les plentyn ac yn ateb senario amddiffyn plant yn hyderus.

Mae'r staff gofal yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn gyson. Maent yn canmol plant gan ddefnyddio 'da iawn' ac yn annog yr ymddygiad y maent am ei weld. Mae'r staff gofal yn symud o gwmpas yr ystafell chwarae, gan ymgysylltu'n gadarnhaol â'r plant a sicrhau eu bod wedi ymgartrefu ac yn hapus. Maent yn gweithredu ar awgrymiadau di-eiriau’r plant i gefnogi eu dewisiadau a'u hanghenion. Mae'r rhyngweithio'n gadarnhaol gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd, ac mae’r staff gofal bob amser yn fodelau rôl da.

Mae’r staff gofal yn darparu ystod briodol o weithgareddau chwarae a dysgu. Maent yn cydweithio fel tîm i gynllunio'n dymhorol ac maent yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant. Maent yn hyrwyddo dysgu'r plant trwy rai gweithgareddau a arweinir gan oedolion ac yn datblygu chwarae'r plant. Er enghraifft, ceisiodd plant iau adeiladu tŵr, felly bu aelod o’r staff gofal yn eu helpu a chyflwyno cyfrif fel rhan o'u chwarae. Maent yn cadw cofnodion datblygiad. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio ar gyfer camau nesaf dysgu a datblygiad pob plentyn. Mae’r staff gofal yn cymryd camau priodol pan fo plant ag anghenion ychwanegol a amheuir neu a nodwyd. Maent yn gweithio gyda rhieni ac asiantaethau eraill yn gadarnhaol. Mae’r staff gofal yn cynnig rhai cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth y plant.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau a pholisïau boddhaol ar waith i sicrhau bod pawb yn gyffredinol ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a llesiant plant. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do yn ddiogel, yn saff, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad asesiadau risg priodol ar waith. Fodd bynnag, nid ydynt yn cwmpasu pob agwedd ar y lleoliad ac nid ydynt yn nodi'r holl risgiau posibl. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud gwaith cynnal a chadw, gwiriadau diogelwch ac ymarferion tân rheolaidd sy'n cyfrannu at amgylchedd diogel.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod gan yr amgylchedd le chwarae dan do i'r plant symud o'i gwmpas yn rhydd. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu'r rhan fwyaf o anghenion y plant ac yn galluogi'r rhan fwyaf ohonynt i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu'r brif ystafell chwarae yn dda fel ei bod yn darparu ystod ddigonol o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer bron pob ystod oedran y gofelir amdani. Gall y plant symud o gwmpas y brif ystafell chwarae, gan gael mynediad at deganau ac adnoddau a defnyddio bwrdd neu arwynebedd llawr i chwarae'n ddiogel. Maent yn cynnig lle chwarae ychwanegol ar gyfer gweithgareddau corfforol mewn ardal awyr agored ac ystafell fawr â charped.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod llawer o blant yn gallu cael mynediad at amrywiaeth foddhaol o ddodrefn, teganau ac offer sy'n briodol i'w hoedran yn y brif ystafell chwarae. Mae adnoddau digonol i gynnal diddordeb y plant ac mae adnoddau ychwanegol yn cael eu storio mewn ystafell arall yn cynnig amrywiaeth pellach.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Gwael

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth sy'n datblygu ar gyfer y dyfodol. Mae ganddynt ddatganiad o ddiben pwrpasol sy'n adlewyrchu bron pob rhan o’r lleoliad. Fodd bynnag, roedd rhai manylion wedi dyddio. Ers yr ymweliad arolygu, maent wedi diweddaru rhai rhannau o'r datganiad o ddiben. Mae ganddynt ystod o bolisïau ar waith heblaw am newid cewynnau. Nid yw pob polisi wedi'i ddiweddaru ac nid yw'n adlewyrchu'r lleoliad yn llawn. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r person cofrestredig wedi cadarnhau ei fod wedi dechrau adolygu a diweddaru'r polisïau. Maent yn casglu ac yn cadw'r holl wybodaeth berthnasol am y plant yn eu gofal. Maent yn llenwi ffurflenni damweiniau a chaniatâd rhoi meddyginiaeth ond nid ffurflenni digwyddiadau ac nid oes ganddynt gofnod o roi meddyginiaeth. Gwnaed rhai gwelliannau ar ôl yr arolygiad. Mae gan y bobl sy'n cynnal y lleoliad ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn bodloni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg. Maent yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac yn cwblhau hysbysiadau o newidiadau i’r lleoliad yn ogystal â gweithio’n gadarnhaol gydag AGC i roi gwelliannau ar waith i’r lleoliad. Er enghraifft, ers yr arolygiad ym mis Ionawr 2018 maent wedi cynnal ymarferion tân rheolaidd gan gynnwys cofnodi mwy o fanylion yn y llyfr cofnodion. Maent yn gweithredu'n brydlon ar feysydd i'w gwella a ddygwyd i'w sylw, gan gynnwys y rhai a nodwyd yn yr arolygiad hwn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu ansawdd y gofal yn flynyddol. Maent yn gofyn am awgrymiadau'r bobl sy'n defnyddio'r lleoliad ac yn gweithredu arnynt, ac yn llunio adroddiad ansawdd gofal sylfaenol. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad broses briodol ar waith i ddelio â phryderon.

Mae gan y lleoliad staff gofal addas, profiadol a chymwys. Fodd bynnag, nid yw'r person cofrestredig yn cynnal yr holl wiriadau addasrwydd ar bob person sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r plant yn y lleoliad. Mae hwn yn achos o ddiffyg cydymffurfio parhaus ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Mae’n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r broses rheoli perfformiad yn foddhaol. Maent yn cael cyfarfodydd staff rheolaidd i drafod anghenion hyfforddi parhaus ac mae aelodau'r staff gofal yn mynychu hyfforddiant rheolaidd. Cynhelir arfarniadau sylfaenol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnal sesiynau goruchwylio rheolaidd, ffurfiol, un-i-un gyda phob aelod o'r staff gofal nac yn cadw cofnod o unrhyw drafodaethau un-i-un. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cofnodi amseroedd presenoldeb gwirioneddol y plant. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cofnodi pan fydd staff gofal ar egwyl neu pan fyddant ar deithiau ysgol. Roedd y cofrestrau presenoldeb yn dangos eu bod yn mynd y tu hwnt i'r niferoedd uchaf y maent wedi'u cofrestru i ofalu amdanynt o bryd i'w gilydd, ond cafodd hyn ei unioni'n brydlon.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn ddigonol. Maent yn darparu pecyn rhieni i ddarpar rieni, gan gynnwys yr holl wybodaeth bwysig am y lleoliad. Maent yn hysbysu rhieni trwy roi adborth llafar dyddiol a thrwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd y rhieni eu bod yn hapus iawn ar y lleoliad,

bod eu plant wedi ymgartrefu ac yn hoffi dod. Gwnaethant ddweud fod y staff gofal yn gyfeillgar ac y gallant siarad â nhw am unrhyw bryderon sydd ganddynt.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 – Datblygu asesiadau risg ymhellach i gwmpasu pob agwedd ar y lleoliad a nodi'r holl risgiau.

A2 – Datblygu polisïau ymhellach i gynnwys arferion gorau ac adlewyrchu'n llawn y lleoliad a gynigir.

A3 – Cofnodi pan fydd staff ar egwyl neu'n hebrwng y plant i'r ysgol a phan fydd gwirfoddolwyr yn gofalu am y plant.

A4 – Datblygu'r cynllunio ymhellach i gynnwys camau nesaf dysgu a datblygiad y plant.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Roedd gwiriadau addasrwydd staff yn anghyflawn. Sicrhau bod yr holl dystiolaeth o wiriadau addasrwydd cyn cyflogaeth yn cael eu cwblhau a'u bod ar gael i'w harchwilio. | Ni chyflawnwyd |
| 29 | Nid oedd unrhyw dystiolaeth o oruchwyliaeth staff un i un. Sicrhau bod sesiynau goruchwylio rheolaidd yn cael eu cynnal gyda phob aelod o staff a bod y rhain yn cael eu cofnodi. | Ni chyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf.  Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y

gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 20 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad yw'n sicrhau bod preifatrwydd y plant yn cael ei barchu bob amser. Sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y plant yn cael eu parchu yn y lleoliad. | Newydd |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i’w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni’r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i’w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy’n effeithio’n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 13/09/2022